OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 2918 (Cy.257)

# GWASANAETHAU TÂN

PENSIYNAU

# Gorchymyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *9 Tachwedd 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *11 Tachwedd 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 36, 60 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**):

### Cymhwyso, enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchmyn Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Cynllun Pensiwn y Dynion Tân) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 11 Tachwedd 2004.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cynllun" yw'r cynllun a sefydlwyd o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**2**) ac a nodir yng Ngorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân 1992(**3**).

### Cadw'r cynllun pensiwn presennol

**3.**—(1) Er gwaethaf diddymu adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**4**)), bydd y Cynllun yn parhau mewn grym.

(2) Bydd y deddfiadau a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn parhau i fod ag effaith at ddibenion y Cynllun fel pe na baent wedi'u diwygio neu eu diddymu, fel sy'n briodol, gan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.

(**1**) 2004 p.21.
(**2**) 1947 p. 41.
(**3**) O.S. 1992/129, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2309, 1997/2851, 1998/1010, 2001/3649, 2001/3691 ac O.S. 2001/310.
(**4**) Diddymir Adran 26 gan adran 54 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 ac Atodlen 2 iddi, ond mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a'r Atodlen iddo yn parhau i roi effaith i'r adran honno at ddibenion y Cynllun.

**Newid enw'r cynllun**

**4.**—(1) Enw newydd y Cynllun fydd "Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)".

(2) Dehonglir unrhyw gyfeiriad at y Cynllun mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen arall (gan gynnwys y Cynllun ei hun) fel cyfeiriad at y Cynllun o dan ei enw newydd.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

9 Tachwedd 2004

(**5**) 1998 p.38.

## ATODLEN

Erthygl 3(2)

| *Deddf* | *Adrannau o'r Ddeddf sy'n parhau i fod ag effaith at ddibenion y Cynllun* |
|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Tân 1947 | Adran 26, is-adrannau (1) i (5)(**6**) |
| | Adran 27A(**7**) |
| | Adran 35, i'r graddau y mae'n berthnasol i adran 26 |
| | Adran 39(5) |
| | Y Drydedd Atodlen |
| Deddf Gwasanaethau Tân 1951(**8**) | Adran 1 |
| Deddf y Lluoedd wrth Gefn a'r Lluoedd Ategol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951(**9**)) | Adran 46(3)(iii) |
| | Adran 61(1)(d) |
| Deddf Gwasanaethau Tân 1959(**10**) | Adran 8, is-adrannau (1) i (3) |
| | Adran 9, is-adrannau (1) a (2)Adran 10 |
| Deddf Pensiynau (Cynnydd) 1971(**11**)) | Paragraffau 16, 16A a 44 o Atodlen 2(**12**) |
| Deddf Blwydd-daliadau 1972(**13**) | Adran 16 |
| | Adran 24(1)(a) |
| Deddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997(**14**) | Adran 1(3) |

(**6**) Diwygiwyd adran 26 gan adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1951 (p. 27); adran 42 o Ddeddf y Lluoedd wrth Gefn a'r Lluoedd Ategol (Diogelu Buddiannau Sifil) 1951 (p. 65); adran 33 o Ddeddf Dwyn 1968 (p. 60) ac Atodlen 3 iddi; adrannau 16 a 29 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 ac Atodlen 8 iddi (p. 11); adran 100 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1973 ac Atodlen 27 iddi (p. 38); adran 1 o Ddeddf Cymorth Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 1975 ac Atodlen 1 iddi (p. 18); adran 32 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43); adran 1 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 (p. 52) ac erthygl 2 o Orchymyn Cymorth Gwladol (Addasu Deddf Gwasanaethau Tân 1947) 1976 (O.S. 1976/551).

(**7**) Mewnosodwyd adran 27A gan adran 3 o Ddeddf Pensiynau'r Heddlu a'r Dynion Tân 1997 ac fe'i diwygiwyd gan erthygl 102 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (Diwygiadau Canlyniadol a Diddymiadau) 2001 (O.S. 2001/3649).

(**8**) 1951 p.27.

(**9**) 1951 p.65; diwygir adrannau 46(3)(iii) a 61(1)(d), o 11 Tachwedd 2004, gan adran 53 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a pharagraff 12 o Atodlen 1 iddi.

(**10**) 1959 p. 44.

(**11**) 1971 p. 56; mewnosodwyd paragraff 16A o Atodlen 2 gan adran 29 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 a pharagraff 89 o Atodlen 6 iddi. Diwygir paragraffau 16, 16A a 44 o Atodlen 2, o 11 Tachwedd 2004, gan adran 53 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a pharagraff 35 o Atodlen 1 iddi.

(**12**) 1971 p.56; mewnosodwyd paragraff 16A gan adran 29 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 ac Atodlen 6 iddi.

(**13**) 1972 p.11. O 11 Tachwedd 2004, diwygir adran 24(1)(a) gan adran 53 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, a pharagraff 37 o Atodlen 1 iddi.

(**14**) 1997 p.52.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod Cynllun Pensiwn y Dynion Tân ("y Cynllun"), a sefydlwyd o dan adran 26 o Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947, yn parhau mewn grym er bod yr adran honno wedi'i diddymu gan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. At ddibenion y Cynllun, mae'r Gorchymyn hwn yn parhau i roi effaith i ddeddfiadau penodol a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd gan Ddeddf 2004.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn darparu ar gyfer newid enw'r Cynllun yn "Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru)". Dehonglir unrhyw gyfeiriad at y Cynllun mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen arall (gan gynnwys y Cynllun ei hun) fel cyfeiriad at y Cynllun o dan ei enw newydd.

Ni luniwyd asesiad effaith reoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn, gan nad yw'r offeryn yn effeithio o gwbl ar gostau busnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol.